# Crëwr Cynnwys Digidol

## Heno/Prynhawn Da

Tinopolis

Tinopolis - Llanelli

Mae Tinopolis Cymru yn chwilio am Grëwr Cynnwys Digidol creadigol, cyflym a manwl i ymuno â'i dîm yn Llanelli. Bydd deiliad y swydd yn creu, golygu, pecynnu a chyhoeddi cynnwys deniadol ar gyfer llwyfannau cymdeithasol y cwmni, gan roi blaenoriaeth ddyddiol i Heno a Prynhawn Da a chefnogi cynyrchiadau.

Mae'r rôl ymarferol yn cynnwys cynhyrchu fideos fertigol gwreiddiol, clipio ac ail-lunio deunydd rhaglenni, a chefnogi sesiynau ffilmio digidol-yn-gyntaf gan ddefnyddio offer symudol. Bydd y crëwr yn ysgrifennu capsiynau a chopi Cymraeg naturiol, ychwanegu isdeitlau, testun ar y sgrin a graffeg syml, paratoi mân-luniau, dewis fformatau priodol ac amserlennu cyhoeddi yn ddyddiol. Disgwylir hefyd iddo gadw cofnodion o asedau, fersiynau, cymeradwyo a chyhoeddi.

Bydd yr unigolyn yn sicrhau bod y cynnwys yn gywir, hygyrch, wedi'i glirio o ran hawliau ac yn gyson yn weledol. Rhaid iddo ymateb yn gyflym i flaenoriaethau newidiol, gweithio i amserlenni byr, cyfrannu syniadau creadigol a defnyddio data perfformiad ac ymatebion cynulleidfaoedd i wella'r cynnwys.

Mae Cymraeg cryf, hyder gyda Premiere Pro neu feddalwedd debyg, profiad cyfryngau cymdeithasol, barn olygyddol gadarn a sylw i fanylion yn hanfodol. Mae profiad teledu, graffeg, animeiddio testun a dadansoddi data yn ddymunol. Mae'r swydd yn llawn amser, gyda gwaith penwythnos achlysurol.

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Tinopolis, Stryd y Parc, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA15 3YE |
| **Cyflog:** | Yn ddibynnol ar brofiad |
| **Dyddiad Cau:** | 4 Medi 2026 |

### Manylion pellach

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith:** | Cyfartaledd o 40 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc pan fo angen. |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol at wyliau banc statudol, bydd hawl pro rata i 25 diwrnod o wyliau dros flwyddyn. |
| **Pensiwn:** | Gall staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Tinopolis, yn ddarostyngedig i delerau'r cynllun. Ar hyn o bryd, mae Tinopolis yn cyfrannu 3% o'r cyflog sylfaenol a disgwylir cyfraniad staff o 5%. |
| **Ceisiadau:** | Dylid anfon llythyr cais a CV at swyddi@tinopolis.com, gan nodi 'Crëwr Cynnwys Digidol' yn glir. Dyddiad ac amser cau: 4 Medi 2026 |

Yn unol â gofynion Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU. Bydd yn ofynnol cael tystiolaeth ddogfennol o gymhwyster gan ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio.

Gwybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch chi pan fyddwch yn ymgeisio am swydd yn Tinopolis: Wrth wneud cais am swydd, bydd disgwyl i chi ddarparu CV fel rhan o'r broses. Byddwn yn cadw copi o'ch CV ar ffeil am gyfnod o dair blynedd. Pe bai swydd debyg yn codi yn y cyfnod hwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn cysylltu â chi. Gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol o'n ffeiliau ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data, gweler

**http://www.tinopolis.com/privacy-notice/**